


# Sut i aildiwbio eich mowld clust




1. Tynnwch eich mowld clust allan o'ch cymorth clyw, wedyn tynnwch y tiwbin allan o'r mowld clust.



2. Torrwch tua 5cm oddi ar ddarn o diwbin sydd wedi'i blygu ymlaen llaw, a hynny ar ongl er mwyn creu pen pigfain.



3. Bwydwch y pen pigfain drwy'r twll yn y mowld clust o'r tu allan fel y dangosir, nes iddo ddod allan y pen arall. Os oes dau dwll yn eich mowld clust, gwthiwch y tiwbin drwy'r twll mwyaf ac uchaf o'r ddau.




4. Tynnwch ben pigfain y tiwbin drwy'r mowld clust nes y bydd pen arall y tiwbin yn unionsyth ac yn gorffwys yn wastad yn erbyn y mowld.


Y dewis cywir ar gyfer y GIG

danalogic GN


# Sut i aildiwbio eich mowld clust (parhad)



5. Torrwch y pen pigfain i ffwrdd mor agos â phosibl at y mowld clust. Sicrhewch nad oes ymylon garw yn dal i wthio allan oherwydd gall hyn arwain at gosi poenus yn eich clust.



6. Nawr bydd angen i chi addasu hyd y tiwbin er mwyn iddo ffitio eich clust. Gosodwch yr hen ddarn o diwbin (a gafodd ei dynnu allan yn gynharach) wrth ochr y tiwb newydd, wedyn mesurwch a thorrwch. Neu gosodwch y teclyn clyw dros eich clust, a marciwch y man lle mae’n croesi eich cymorth clyw fel y dangosir, a thorrwch.



7. I ailgysylltu eich cymorth clyw â'r mowld clust, gwasgwch ben uchaf y tiwb a gwthiwch y mowld clust a’r cymorth clyw at ei gilydd.

**AWGRYM DEFNYDDIOL:** *Gall tiwbin mowld clust fynd yn galed, yn frau neu’n afliwiedig dros amser. Fel arfer, argymhellir ei newid o leiaf unwaith bob chwe mis. Os cewch unrhyw anhawster wrth newid y tiwbin yn eich mowld clust, cysylltwch â’ch adran Awdioleg leol.*

I gael rhagor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth i gleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**